**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Dewi R. Jones

**Atodiad 1**

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

24 Ionawr 2013

**At benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr holl ysgolion Gwynedd**

Annwyl Bennaeth/Cadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Balansau Ysgolion***

Nid am y tro cyntaf, cafodd y mater o falansau cymharol uchel Ysgolion Gwynedd sylw manwl yng nghyfarfod diwethaf Y Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2012.

Neges glir aelodau'r Fforwm, a'u dymuniad, yw y dylsai'r adnoddau ariannol gael eu gwario er budd y disgyblion sydd yn yr ysgolion heddiw yn hytrach na chreu a chario balansau ymlaen er ei fwyn ei hun. Dealla pawb yr angen i gynllunio'n ofalus at y dyfodol, ac ni ddibrisir hynny, ond ymddengys nad ydym yn cael y defnydd gorau o'r arian sydd yn y gyfundrefn Addysg ar hyn o bryd.

Fe noda'r Aelod Cabinet dros Addysg bod y lefel uchel o falansau yn ei gwneud hi'n anodd ymgyrchu i ysgolion dderbyn cyllid ychwanegol neu dderbyn toriadau llai na gweddill gwasanaethau'r Cyngor.

Ymhellach, gofynnwyd i mi ryddhau nifer o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn:

1. Datganiad diweddar Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ble nodir bod gan Ysgolion Gwynedd y balansau uchaf yng Nghymru -
   ***"Gwynedd, gydag 5.9%, oedd â'r lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn fel canran o'r gwariant sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion"***
   http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/localgov2012/121024/?skip=1&lang=cy

2. Rhestr o falansau Ysgolion ar sail nifer disgyblion **(Atodiad A)**

3. Balansau ysgolion ar sail nifer disgyblion a deilynga ginio am ddim **(Atodiad B)**

4. Cyllideb ddiwygiedig 2012/13 sy'n cymharu sefyllfa'r ysgolion gyda'r amcangyfrif gwreiddiol ar y defnydd o falansau wrth sefydlu cyllideb 2012/13 **(Atodiad C)**

5. Holiadur Balansau Ysgolion 2011/2012 yn crynhoi sefyllfa pob ysgol oedd gyda mwy na 5% o falansau ar 31 Mawrth 2012

Mae cyfle a chroeso i unrhyw ysgol ddarparu sylwadau i mi ar y daflen ymateb a byddaf yn cyflwyno sylwadau pellach i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 4 Chwefror 2013. **(Atodiad Ch)**

Efallai y byddwch yn cofio i ni ymgynghori ar addasiad i'r ddeddfwriaeth lle mae gan yr Awdurdod yr hawl i ymyrryd gyda balansau ysgolion. Y cefndir yw bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn eu cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2011 wedi cytuno i ychwanegu'r cymal 8% i'r ddeddfwriaeth. Mae'r Fforwm nawr yn awyddus i ystyried diddymu'r cymal hwn a bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ar 4 Chwefror 2013. Yn y cyfamser mae cyfle i chi fynegi barn ar y mater hwn ac amgaeaf daflen ymateb i'r diben hwn yn ogystal. **(Atodiad D)**

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Tîm Rheoli'r Adran Addysg